

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL CYMDEITHASOL RHIF:

39/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

09/08/2018

Gwerthusiad o'r Porth Sgiliau i Fusnes: Crynodeb Gweithredol

Gwerthusiad o'r Porth Sgiliau i Fusnes: Crynodeb Gweithredol

Awdur(on): Jessica Phillips, Nick Miller, Kerry KilBride a Katie Bedney.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Gwerthusiad o'r Porth Sgiliau i Fusnes: Crynodeb Gweithredol;
Awduron: Jessica Phillips, Nick Miller, Kerry KilBride a Katie Bedney (Ebrill 2018). Caerdydd:
Llywodraeth, GSR adroddiad rhif 39/2018.
Ar gael ar: <https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-skills-gateway-business/?lang=cy>

Barn yr ymchwilydd yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Faye Gracey

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 7459

E-bost: Faye.gracey@llyw.cymru

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Yn hydref 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research i gynnal gwerthusiad o'u gwasanaeth cyngor sgiliau a chyfeirio, y Porth Sgiliau i Fusnes. Mae'r Porth yn cynnig cyngor a chyfeirio i fusnesau yng Nghymru trwy ficrowefan, o fewn gwefan Busnes Cymru, sy'n cynnwys hunan-asesiad sgiliau ar-lein, llinell gymorth a chymorth rhanbarthol, wyneb yn wyneb. Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi'r prif ganfyddiadau o'r adolygiad.

Dull Gwerthuso

- 1.2 Yr hyn roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio arno oedd ceisio gwersi allweddol i helpu'r Porth Sgiliau i Fusnes hwyluso gwell mynediad at gyflogaeth a hwyluso cymorth sgiliau i fusnesau yng Nghymru. Er mwyn cynnig awgrymiadau clir ar gyflwyno cymorth yn y dyfodol, fe wnaeth y gwerthusiad ystyried y canlynol:
- Ymwybyddiaeth o'r Porth Sgiliau i Fusnes a'i welededd
 - Boddhad cyflogwyr gyda'r gwasanaethau ar-lein, ar y ffôn ac wyneb yn wyneb
 - Ymarferoldeb microwefan y Porth a chanfyddiadau ohoni
 - Defnydd o'r Proffil Sgiliau
 - Pa mor gynhwysfawr yw'r gwasanaethau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
 - Effeithiolrwydd y gwasanaethau ar-lein, ar y ffôn ac wyneb yn wyneb wrth helpu cyflogwyr i weithredu ar anghenion sgiliau eu gweithlu
 - Hygyrchedd y rhaglenni cymorth sgiliau a chyflogaeth
 - Effaith y Porth ar fuddsoddi mewn sgiliau
 - Gwerth am arian
- 1.3 Cafodd y gwerthusiad ei strwythuro yn unol â'r model rhesymeg a'r fframwaith gwerthuso, a'i ddatblygu yn dilyn adolygiad desg o'r holl ddogfennaeth gwasanaethau perthnasol yng nghanam cwmpasu'r adolygiad. Casglwyd data i asesu perfformiad yn erbyn pob maes o'r fframwaith gwerthuso. Casglwyd data sylfaenol trwy:

- 20 o arsylwadau defnyddwyr cymedroledig gyda busnesau nad oedd wedi ymwneud â gwasanaeth y Porth Sgiliau i Fusnes
- Wyth o gyfweiliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid ehangach ee arweinwyr polisi sgiliau
- Pedwar o gyfweiliadau ansoddol gydag unigolion oedd yn ymwneud â chyflwyno rhanbarthol a'r llinell gymorth
- Arolwg ar-lein o fusnesau a oedd wedi cymryd rhan (24 o ymatebion)
- Arolwg ar-lein o fusnesau nad oedd wedi cymryd rhan (20 o ymatebion)

1.4 Gweler paragraff **Error! Reference source not found.** o fewn y prif adroddiad am gyfyngiadau methodoleg yr ymchwil.

Model Rhesymeg a Fframwaith Gwerthuso

1.5 Cafodd model rhesymeg a fframwaith gwerthuso eu datblygu trwy archwilio canfyddiadau'r adolygiad desg a'r cyfweiliadau cwmpasu. Cymhwyswyd yr hyn a ddysgwyd o'r rhain trwy ddefnyddio dull theori newid, er mwyn datblygu'r offerynnau gwerthuso gofynnol i alluogi asesu effeithiol o ganlyniadau ac effeithiau gwasanaeth y Porth Sgiliau i Fusnes. Fe wnaeth y model rhesymeg fframio gyrwyr ac anghenion polisi ar gyfer y prosiect a chyflwyno cadwyn o fewnbynau, gweithgareddau, allbynau, canlyniadau interim ac effeithiau (dymunol) sy'n dod i'r amlwg. Dangosodd y model rhesymeg a'r fframwaith gwerthuso dilynol ddibyniaethau allweddol yn y gadwyn a'i nod oedd mapio 'beth a ddigwyddodd' a 'pham'. Fe wnaeth y fframwaith gwerthuso gymhwyso'r broses rhesymeg ac adeiladu set o ddangosyddion a mesuriadau i gysylltu'r allbynau, canlyniadau ac effeithiau gweladwy â chasgliad defnyddiol o ddata ac asesiad o'r gwaith.

Canfyddiadau Allweddol

Ymwybyddiaeth o'r Porth Sgiliau i Fusnes a'i welededd

1.6 O'r cynrychiolwyr busnes nad oedd wedi ymwneud â'r Porth Sgiliau i Fusnes yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd hanner yn gwybod am ei fodolaeth. Roedd elfennau o wasanaeth y Porth, fel enwau darparwyr hyfforddiant, cyfeirio at brentisiaethau a gwybodaeth am gyllid yn gyson â'r hyn roedd y gynulleidfa

nad oedd wedi ymwneud yn ei ddisgwyl o'r gwasanaeth, o'r hyn roeddent wedi'i weld o hysbysebion neu wedi'i gasglu o'r enw.

- 1.7 Roedd busnesau a fu'n ymwneud yn tueddu i fod wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth trwy un o gynghorwyr Busnes Cymru, trwy wefan Busnes Cymru/gwasanaeth arall neu yn dilyn defnydd o beiriant chwilio.
- 1.8 Yn ystod yr arsylwadau defnyddwyr a gymedrolwyd, roedd buddiolwyr wedi gweld y tudalennau trwy amryw lwybrau gan gychwyn o dudalen hafan Busnes Cymru. Roedd mynd at y tudalennau yn hawdd, waeth pa lwybr a gymerodd y buddiolwyr

Bodddhad cyflogwyr a'u camau gweithredu yn dilyn y gwasanaeth ar-lein, ar y ffôn ac wyneb yn wyneb

- 1.9 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yr arolwg a buddiolwyr o'r arsylwadau defnyddwyr a gymedrolwyd yn hapus gyda'r cymorth a dderbyniasant o'r Porth Sgiliau i Fusnes. Y consensws cyffredinol ymysg y rhai yr ymgynghorwyd â hwy oedd bod cymorth y llinell gymorth a'r wefan yn ddefnyddiol, er y gallent elwa o gyngor mwy arbenigol neu fanylach. Ymddangosai fod y mwyafrif o ymatebwyr yr arolwg yn gweithredu yn dilyn y cymorth roeddent yn ei dderbyn gan gynghorydd sgiliau rhanbarthol. Teimlent fod y cynghorwyr sgiliau rhanbarthol yn cynyddu'r wybodaeth am sgiliau a oedd ar gael iddynt a'u hymwybyddiaeth o gyfleoedd sgiliau.

Ymarferoldeb microwefan y Porth a'r canfyddiadau ohoni

- 1.10 Roedd yr adborth ar y gwe-lywio o fewn tudalennau'r Porth yn amrywio. Roedd y mwyafrif yn gwe-lywio'r microwefan trwy ddefnyddio'r bar offer, gan ei fod yn strwythuro eu taith trwy'r wefan ac yn cynnwys nifer o dudalennau o ddiddordeb. Roedd y rhain yn cynnwys y tudalennau 'Rhaglenni Sgiliau a Hyfforddi' a'r 'Cymorth yn eich ardal'.
- 1.11 Yn gyffredinol, roedd buddiolwyr o'r farn fod arddull a chynnwys tudalennau'r Porth wedi'u cyflwyno'n dda, er ychydig yn drwm o ran testun, ac wedi eu gosod allan yn dda. Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn glir ac wedi'i hysgrifennu mewn arddull nodweddiadol 'lywodraethol' Teimlai'r buddiolwyr

fod mwy o bosibiliadau i ffeithluniau, fideos a delweddu a oedd eisoes ar y safle, er enghraifft y swigod ar y dudalen 'Rhaglenni Sgiliau a Hyfforddiant'.

- 1.12 O ran cynulleidfa microwefan y Porth, awgrymodd y buddiolwyr bob mathau o sefydliadau, mawr neu fach, newydd neu sefydledig, fel y targedau posibl ond nid oeddent fyth yn awgrymu mai hwy oedd y targed. Awgrymai rhai fod y wefan yn brin o hyfforddiant a chymorth penodol neu arbenigol a theimlent y byddai'n rhaid iddynt gysylltu â'r llinell gymorth neu ddefnyddio'r gwasanaeth wyneb yn wyneb i dderbyn cymorth digonol.

Y defnydd o'r Proffil Sgiliau

- 1.13 Roedd buddiolwyr yn gyffredinol yn cael y Proffil Sgiliau yn hawdd i'w gwblhau, gyda nifer bach o awgrymiadau hawdd eu gweithredu o safbwynt cynllun a strwythur yr offeryn hunan-asesu. Roedd yr adroddiadau cwblhau a dderbyniwyd yn cael eu gwerthfawrogi gan y mwyafrif o gyflogwyr ar gyfer defnydd annibynnol ac roeddent yn cael eu hystyried fel rhai a allai fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio hyfforddiant a datblygiad eu staff eu hunain.
- 1.14 Roedd rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â chyflwyno a rheoli gwasanaeth y Porth yn ansicr o wir nod y Proffil Sgiliau. Roeddent yn ansicr os oedd ar gyfer denu pobl i'r cymorth neu a oedd yn offeryn diagnostig, ac roeddent yn bryderus ei fod wedi 'digideiddio sgwrs'.

Hygyrchedd y rhaglenni cymorth sgiliau a chyflogaeth

- 1.15 Roedd rhai ymatebwyr yr arolwg a chyflogwyr a oedd wedi cwblhau ffurflen gwerthuso cleientiaid ar ôl ymwneud â'r gwasanaeth wyneb yn wyneb rhanbarthol, yn teimlo bod y gwasanaeth wedi eu gwneud yn fwy ymwybodol o'r hyn oedd yn cael ei gynnis, ond iddynt ganfod nad oeddent yn gymwys am gymorth neu nad oedd yn eu helpu hwy gyda'u hanghenion penodol. Roedd nifer bach wedi gweld y rhaglenni sgiliau recriwtio a'r cymorth cyflogaeth.

Effaith y Porth ar fuddsoddi mewn sgiliau

- 1.16 Mae tîm y Porth yn datblygu ac yn cynnig cyfres o gyrsiau ar-lein ar amrywiaeth o bynciau trefnu, dysgu a datblygu trwy'r Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein (BOSS).

Gwerth am arian

- 1.17 Mae'n anymarferol cynnig asesiad cyffredinol o'r gwerth am arian a ddarperir gan y Porth. Bydd tîm y Porth yn cynnal asesiad gwerth am arian mewnol.

Casgliadau

- 1.18 **Mae gwasanaeth y Porth Busnes i Sgiliau yn amlwg yn gweithredu'n gyson â'i yrwyr polisi.** Mae'r gwasanaeth yn **ddarbodus o ran cost** ac mae'n cynnig gwasanaeth effeithlon a helaeth er hynny i fusnesau yng Nghymru. Canfu'r mwyafrif o sefydliadau am y gwasanaeth trwy atgyfeiriadau Busnes Cymru gan na chaiff y gwasanaeth ei farchnata'n helaeth nac yn aml.

Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a'r bodddhad ynddo

- 1.19 **Ni chaiff gwasanaeth y Porth ei farchnata'n helaeth nac yn aml ar hyn o bryd.** Nid yw'r ymgyrchoedd a gafodd eu rhedeg wedi cael eu targedu ar gyfer rhwydweithiau, rhanbarthau na sectorau unigol. Unwaith roeddent yn ymwneud â'r gwasanaeth, **yn aml trwy atgyfeiriad Busnes Cymru**, roedd buddiolwyr yn **hapus gydag ansawdd a swm yr wybodaeth a'r cyngor a roddwyd**, yn enwedig gyda'r cynghorwyr sgiliau rhanbarthol. Er hyn roedd cyflogwyr prysurach yn tueddu i gael y **swm o wybodaeth ar y wefan yn llethol**.

Pa mor gynhwysfawr yw'r gwasanaeth

- 1.20 **Roedd y cyngor a ddarparwyd gan y cynghorwyr sgiliau rhanbarthol yn cael ei ystyried i fod o ansawdd uchel.** Roedd cynghorwyr yn cynnig cyngor ar raglenni a oedd yn cael eu hariannu a rhai y codid tâl amdanynt, a'r cyngor hwnnw'n gysylltiedig ag anghenion busnes y cyflogwr.

Effeithiolrwydd y Proffil Sgiliau a'r Boddhad ynddo

- 1.21 Er bod y Proffil Sgiliau'n **hawdd i'w gwblhau ac yn gymharol fyr, gallai elwa o deilwra ychwanegol**. Byddai wedi bod yn well gan ddefnyddwyr i'r Proffil Sgiliau fod yn fwy penodol i sectorau ac yn fwy perthnasol i'w busnesau. **Adolygiadau cymysg a gafodd yr adroddiadau cwblhau**, gyda rhai buddiolwyr yn teimlo y byddent yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio hyfforddiant mewnol ac archwiliadau sgiliau, teimlai eraill fodd bynnag eu bod yn gwrth-ddweud ei gilydd ac yn rhoi cyngor anghywir. **Yn aml, nid oedd y galw'n ôl yn dilyn cwblhau'r Proffil Sgiliau yn digwydd**.

Cyngor y gellir gweithredu arno ac effaith buddsoddi mewn sgiliau

- 1.22 Er gwaethaf cynnal 18 mis llawn o gyflwyno'r rhaglen, **ychydig o ffurflenni gwerthuso'r cleientiaid sydd wedi cael eu cwblhau**. Felly, mae mesur canlyniadau ac effeithiau defnyddwyr gwasanaethau a dderbyniodd gymorth gan y cyngorwyr rhanbarthol y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn.
- 1.23 Mae **anhawster pellach wrth asesu canlyniadau ac effeithiau mwy hirdymor**, gan eu bod yn ddibynnol iawn ar ffactorau allanol yn sgil natur y gwasanaeth cyfeirio.

Argymhellion

Ymwybyddiaeth

- 1.24 Awgrymwn **adolygiad o ddiben y Porth Sgiliau i Fusnes**. Gall fod angen i'r rheini sy'n ymwneud â chyflwyno a rheoli'r gwasanaeth benderfynu a ydynt am **ganolbwytio ar godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol neu ar ymyrraeth ddyfnach gyda nifer llai o sefydliadau. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac o'r hyn y gall ei wneud ymhlith busnesau**, a byddai marchnata amlach, a hwnnw wedi'i dargedu, yn fuddiol. Yn ogystal, byddai **hyrwyddo a marchnata gwahanol elfennau** o'r gwasanaeth, yn enwedig y cysylltiadau ar y ffôn ac wyneb yn wyneb, o fudd i'r gwasanaeth. Mae **negeseuon clir ynghylch y math o wasanaeth mae'r Porth yn ei gynnig** (cyfeirio, nid ariannu na darparu) yn allweddol er mwyn rheoli disgwyliadau cyflogwyr.

Defnydd o'r Proffil Sgiliau

- 1.25 Mae angen i'r Proffil Sgiliau gael un nod clir, sef gweithgaredd** hyrwyddo sy'n cynnwys cyflogwyr yn y gwasanaeth neu asesu'n llawn anghenion y cyflogwr. Yn dilyn ei gwblhau, **mae angen gwella'r weithdrefn ar gyfer galw'n ôl.**

Gwefan

- 1.26 Byddai **cyflwyno hidlo neu lwybrydd ar dudalen Datblygu Sgiliau** y wefan yn ei gwneud yn haws i gyflogwyr ddarganfod cyrsiau penodol i sectorau, ac wedi eu hariannu, sydd ar gael iddynt.

Gwerthuso

- 1.27 **Mae angen i weithdrefnau gwerthuso gael eu gweithredu'n llawn i gynnwys y cydgyssylltydd ymholiadau sgiliau, cynghorwyr sgiliau rhanbarthol a'r Proffiliau Sgiliau a gwblheir.** Dylid ystyried mecanweithiau ar gyfer gwerthuso ehangach, megis arolygon boddhad wedi eu hamgryptio a anfonir at fuddiolwyr o fewn ychydig fisoedd o'u ymwneud â'r gwasanaeth.